COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 29AIN O DACHWEDD 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Evans, Ceri Davies, Bari Evans, Arwel Davies, Geraint Jones ynghyd a'r Clerc.

1: CROESAWODD Y CADEIRYDD YR AELOD NEWYDD Y CYNGOR, SEF Y CYNGHORYDD RHIAN EVANS, I'R CYFARFOD CYNTAF Y CYNGOR.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Falmai Evans, Hywel Davies a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Cynghorydd Elfed Williams i'r eitemau 6 a 7 isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Hydref 2021 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Arwel Davies ei fod wedi cysylltu â'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych sydd yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-
1: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.
2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.
Mae'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn dal i ddisgwyl manylion ychwanegol gan y perchnogion y safleoedd er mwyn i'r ceisiadau cynllunio fod yn gyflawn.
B. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r canlynol:-
1: Pafin troed cyhoeddus wrth Faes Hwylfa yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau.
2. Ffordd o'r Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch tuag at Graig Lwyd, Prion eisiau sylw.
3. Ffordd o'r Groesffordd, Prion at Gyffordd Ysgol Pant Pastynog eisiau sylw.
C. Derbyniwyd adroddiad Ben Wilcox-Jones, Prif Beiriannydd Diogelwch y Ffordd a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Cyngor Sir Ddinbych, fod yr arwyddion 30 filltir yr awr i'r de (tuag cyfrifiad Rhuthun ar y A525) wedi cael eu symud cyn y datblygiad tai newydd, ac felly nid oes yna'r bwriad o symud yr arwyddion bellach.
D. Derbyniwyd adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru nis oes yna broblem gyda'r afon sydd mynd trwy'r cae tu ôl i Ddolwar yn Llanrhaeadr.
E. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd fod yr "Milwyr Tawel" wedi cael eu hail lleoli o flaen Ysgol Bro Cinmeirch ar ôl y cyfarfod safle gyda'r Swyddog Cyngor Sir Ddinbych.

6. TRAFOD PENDERFYNIAD COFNODION 27.4.2020 - 10. GOHEBIAETH.
Derbyniwyd y datganiad canlynol oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams cyn gadael y cyfarfod i drafod yr eitem dan sylw:-
"Yn dilyn datganiad Cynghorydd Phil Williams yn y cyfarfod diwethaf o Gyngor Cymunedol Llanrhaeadr ei fod yn credu bod penderfyniad a gymerwyd ar y 27.4.2020 pwynt 10 ar yr agenda ddim yn ddilys sef - *Derbyniwyd manylion oddi wrth y Cadeirydd, panel dehongli arfaethedig sy'n cael ei ddarparu gan Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr fydd yn mynd yn*

*lle'r hen banel sydd wrth y ciosg ffon yn Llanrhaeadr. Chadarnhawyd yr aelodau manylion y panel)* bydd angen trafod y mater o dan bwynt 6 o'r agenda.
Cefndir y drafodaeth - Roedd Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr yn gofyn am osod panel newydd yn ei le yn ymyl y bocs teleffon y lle'r panel oedd yno yn barod. Nodwyd bod ffeithiau ar yr hen banel ddim yn gywir bellach sef bod symbolau yn awgrymu bod safle campio ac i garafanau symudol fod ar gael yn Saron, ac fel pwynt hanesyddol bod tafarn Y Cymro dal mewn bodolaeth, bod tŷ Llety'r Guild dal hefo to gwellt arni. Pasiwyd bod y panel newydd yn cael ei osod ar gost Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr.
Yn y cyfarfod ar y 27 Ebrill 2020 doedd dim ond tri Chynghorydd yn bresennol sef Arwel Davies, Bari Evans a finnau fel Cadeirydd. Oherwydd ei gred (Cynghorydd Philip Williams) ni ddylaswn i a hwal i bleidleisio oherwydd fy mod hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr bydd angen i Gyngor Cymunedol Llanrhaeadr benderfynu os ydi datganiad Cynghorydd Phil Williams yn gywir (Mae angen tri chynghorydd i fod yn bresennol i greu quarum ac yn gallu pleidleisio ar y mater dan sylw ir mater gael ei basio)
Isod dwi wedi gosod allan canllawiau o bryd gall Cynghorydd bleidleisio hyd yn oed os ydi'r cynghorydd wedi datgan diddordeb yn y pwnc neu pryd gall cynghorydd ddim pleidleisio ar ôl datgan diddordeb yn y pwnc.
(Rhaid imi ymddiheuro ond dydi hi ddim yn amlwg mod i wedi datgan diddordeb ar y mater o'r paneli ar ddechrau cyfarfod 27ain Ebrill 2020 ond dwi'n credo fy mod wedi gwneud fy sefyllfa yn glir yn ystod trafodaeth ar bwynt 10 a bod y Cynghorydd Arwel Davies a Chynghorydd Bari Evans yn ymwybodol o fy rôl fel Cadeirydd Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr cyn ac yn ystod y cyfarfod.)
Dwi'n ymddiheuro ond yn y man yma byddaf yn troi i'r Saesneg.
The Code of Conduct for members of local authorities in Wales - Guidance from the Public Services Ombudsman for Wales clarifies the matter regarding personal and prejudicial interest and when a Councillor can or cannot vote on matters.
https://www.ombudsman.wales/wp-content/uploads/2018/03/Code-of-Conduct-Community-Councils-August-2016-ENGLISH.pdf
Personal Interest - *If a decision might be seen as affecting your well being or financial position or the well being or financial position of any person who lives with you or with whom you have a close personal association to a greater extent than other people in your Council's area, you have a personal interest.*
Voting after declaring a Personal interest - *you can remain in the meeting, speak and vote on the matter, unless your personal interest is also a prejudicial interest*.
Prejudicial Interest - *You must ask yourself whether a member of the public, if he or she knew all the relevant facts, would think that your personal interest* ***<u>was so significant</u>*** *that it would be likely to prejudice your judgement. In other words, the interest must be perceived as likely to harm or impair your ability to judge the public interest. There must be some factor that might positively harm your ability to judge the public interest objectively. The nature of the matter is also important, including whether a large number of people are equally affected by it or whether you or a smaller group are particularly affected.*
As a Community Councillor but also in my role as Chair of Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr, Member of Social Care Wales Fitness to Practice Panels and as Director of Service for the charity Conwy and Denbighshire Mental Health Advocacy Services I have always believed strongly in upholding The Seven Principles of Public Life (also known as the Nolan Principles) which applies to anyone who works as a public office-holder and I always use these principals to guide me in any decisions I take or participate in.

1.1 Selflessness - Holders of public office should act solely in terms of the public interest.
1.2 Integrity - Holders of public office must avoid placing themselves under any obligation to people or organisations that might try inappropriately to influence them in their work. They should not act or take decisions in order to gain financial or other material benefits for themselves, their family, or their friends. They must declare and resolve any interests and relationships.
1.3 Objectivity - Holders of public office must act and take decisions impartially, fairly and on merit, using the best evidence and without discrimination or bias.
1.4 Accountability - Holders of public office are accountable to the public for their decisions and actions and must submit themselves to the scrutiny necessary to ensure this.
1.5 Openness - Holders of public office should act and take decisions in an open and transparent manner. Information should not be withheld from the public unless there are clear and lawful reasons for so doing.
1.6 Honesty - Holders of public office should be truthful.
1.7 Leadership - Holders of public office should exhibit these principles in their own behaviour and treat others with respect. They should actively promote and robustly support the principles and challenge poor behaviour wherever it occurs.
When Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr set out to restore the Dyfnog Well and surrounding area it consulted widely with the public holding open evenings in the Church, Chapel and a stall in Llanrhaeadr Show. We asked for feedback on the project from members of the public and received 118 replies. There were also letters of support from local groups, organisatiosn, schools and Llanrhaeadr Community Council. Of those members of the public that expressed a view on the project 116 supported the project with only two objections.
Taking into consideration the above facts, in casting my vote on the decision in point 10 of the meeting held on the 27th April 2020 I believe that I did so in the public interest, my interest in the matter was not *likely to harm or impair my ability to judge the public interest,* that my well being or financial position or the well being or financial position of any person who lives with me or with whom I have a close personal association would not have benefited to a greater extent than other people in our Council's area.
Y penderfyniad sydd angen ei gymryd yn cyfarfod nos Lun 29ain Dachwedd 2021 pwynt 6 ar yr agenda ydi bod datganiad Cynghorydd Philip Williams yn gywir neu yn anghywir:
- bod gen i ddim yr hawl i bleidleisio oherwydd diddordeb rhagfarnllyd neu
- fy mod i ddim a diddordeb rhagfarnllyd (prejudicial interest) ac felly fy mod a hawl i bleidleisio oherwydd dydi diddordeb personol ddim yn fy ngwahardd rhag pleidleisio.

Canlyniad y bleidlais
- Os ydych yn penderfynu mod i ddim a diddordeb rhagfarnllyd yn y mater mae'r penderfyniad a gymerwyd ar y 27ain Ebrill 2020 pwynt 10 ar yr agenda yn sefyll.
- Os ydach chi yn penderfynu fy mod â diddordeb rhagfarnllyd gall y penderfyniad ym mhwynt 10 o gyfarfod 27ain Ebrill 2020 ddim sefyll a bydd rhaid trafod y mater o'r paneli ym mhwynt 7 o'r agenda."

Cymerodd yr Is-gadeirydd Ceri Davies y gadair i drafod y pwnc dan sylw.
Penderfynwyd o bum cais i un bod ddatganiad Cynghorydd Elfed Williams yn gywir.

<u>7. TRAFOD PANEL LLANRHAEADR A'R CYLCH.</u>
Penderfynwyd trafod defnydd y cyn panel Llanrhaeadr a'r cylch yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

8. AELODAETH Y CYNGOR.
Nid chafwyd unrhyw gais am yr un sedd sydd yn bodoli ar y Cyngor ac mi fydd y Clerc yn ail hysbysu'r sedd wag.

9. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.
Cytunodd y Cynghorydd Ceri Davies i wneud ymholiadau ynglŷn ar welyau blodau yn ardaloedd Saron a Prion cyn penderfynu ychwanegu'r gwelyau.

10. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.
Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Geraint Jones ei fod wedi cael cyfarfod safle gyda Craig Wilson o'r Adran Goleuadau Cyngor Sir Ddinbych a chadarnhawyd mai'n bosib cael trydan i'r goleuadau Goeden Nadolig o'r golofn wrth Siop-y-Pentre yn Llanrhaeadr. Mi fydd yna fanylion ychwanegol i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

11. ADRODDIAD DIWEDDARAF "BAND EANG".
Adroddwyd y Cadeirydd mi fydd yn archwilio'r mater diweddaraf y Band Eang erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

12. MATERION CYLLID.
A. Datganiad Banc £13,812.00.
B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-
1. HG Web Designs - Ffi flynyddol Wefan y Cyngor £250.00.
2. Apêl Pobi Goch am Bobi Coch y Cyngor £25.00.
C, Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Dŷ Gobaith - Penderfynwyd gadael ar y bwrdd hyd gyfarfod mis Chwefror 2022 y Cyngor.

13. I DRAFOD MATERION CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ERBYN Y CYFARFOD.
Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-
A: Cais cynllunio 23/2021/0972 – Codi estyniad i'r gweithdy presennol yn Pentre Motors, Pentre Llanrhaeadr
B. Cais cynllunio 23/2021/2021/0543 - Codi estyniad un llawr cefn ac addasiadau cystiedig yn Tyddyn Uchaf, Llanrhaeadr.

14. GOHEBIAETH.
Derbyniwyd adroddiadau er wybodaeth.

15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Nid oedd y Cynghorydd Sir Ddinbych yn bresennol yn y cyfarfod.

16. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
A. Nodwyd bod Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r canlynol:-
1: Pafin troed cyhoeddus wrth Faes Hwylfa yn Llanrhaeadr eisiau ei lanhau.
2. Ffordd o'r Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch tuag at Graig Lwyd, Prion eisiau sylw.
3. Ffordd o'r Groesffordd, Prion at Gyffordd Ysgol Pant Pastynog eisiau sylw.
B. Nodwyd fod y Pennaeth presennol Ysgol Bro Cinmeirch yn gadael y swydd yn Basg 2022.
C. Rhybudd i drafod caban newydd yn Ysgol Bro Cinmeirch rhwng Pwyllgor Rheoli Ystafell Gymunedol a Chylch Feithrin Llanrhaeadr yn cyfarfod nesaf y Cyngor.